Cynhaliwyd Eisteddfod Gadeiriol Mynydd y Garreg yn Neuadd y Pentref ar ddydd Gwener, Mai 8 fed 2026. Y beirniaid ar y noson oedd Meinir Richards (Cerdd), Tudur Dylan Jones (Llefaru a Llên), Catrin Brown (Dawns) a Ceri Morris (Celf). Ein cyfeilydd medrus oedd Mr Jonathan Morgan. Diolchwn i'r beirniaid i gyd ac i'r cyfeilydd am eu gwaith caled.

Ein llywydd gwadd eleni oedd yr actor amryddawn Ioan Hefin. Yn ffyddlon i'r Eisteddfod flwyddyn ar ôl blwyddyn, mae'r actor, awdur a chyfarwyddwr yn wir yn ddyn o'i filltir sgwâr. Roedd yn bleser mawr gwrando arno'n sôn am ei waith ym myd y theatr, ffilm, radio a theledu — profiadau sydd wedi mynd ag ef i bedwar ban byd.

Enillwyd cadair yr Eisteddfod eleni gan Mark Ford o Bontarddulais. Dyma'r tro cyntaf i Mark gystadlu mewn cystadleuaeth ysgrifennu. O ddydd i ddydd, mae'n bennaeth yn Ysgol Gynradd Meidrim. Wedi dathlu pen-blwydd arbennig eleni, penderfynodd nodi'r achlysur drwy roi cynnig ar gystadlu — ac fe ddaeth llwyddiant mawr ar ei ran. Diolchwn unwaith yn rhagor i Huw Morris am wneud y gadair eleni eto. Dathlwyd llwyddiant y bardd gyda Dawns y Blodau gan blant lleol Ysgol Gynradd Mynydd y Garreg. Darllenwyd cyfarchiad a gwerthfawrogiad o waith Mark a ysgrifenwyd gan Heddwyn Jones, bardd lleol a ffrind da i'n heisteddfod.

Diolch yn fawr iawn i'r noddwyr a phawb a gynorthwyodd mewn unrhyw ffordd ar y noson. Diolch arbennig i'r bobl lleol ac i'r ysgolion lleol am ein cefnogi eto eleni.

Gweler isod ganlyniadau llwyfan a gwaith cartref Eisteddfod Gadeiriol Mynydd y Garreg 2026

Canlyniadau Eisteddfod Gadeiriol Mynydd y Garreg 2026

	1af	2il	3ydd
1. Côr Ysgol Gynradd	Ysgol Gymraeg Gwenllian		
2. Unawd Dosbarth Derbyn ac Iau	Lucia Lancey	Martha Jên Rudland	Magi Brown
3. Adrodd Unigol Dosbarth Derbyn ac Iau	Martha Jên Rudland		
4. Unawd Blwyddyn 1 a 2	Ela Millard		
5. Adrodd Unigol Blwyddyn 1 a 2	Ela Millard	Elin Phillips	Tomi Lewis
6. Unawd Blwyddyn 3 a 4	Alexia Lancey	Lili Guest	Erin Cray
9. Cân Werin Agored Cynradd	Gwenllian Jones	Bronwen Symmons	Alaw Evans/ Sioned Mair Thomas
10. Adrodd Unigol Blwyddyn 3 a 4	Ifan Jones	Zieorah Onoh	Trystan Tomos Kemp
11. Sgen Ti Dalent (Dan 16)	Gwenllian a Bronwen		
12.Dawns (Unrhyw Gyfrwng) Unigol neu Grŵp	Ysgol Gwynfryn		
13. Unawd Blwyddyn 5 a 6	Bronwen Symmons	Hannah Lewis	
14.Grwp Llefaru Cynradd	Ysgol Mynydd y Garreg		
15. Adrodd Unigol Blwyddyn 5 a 6	Alaw Evans	Tomos Wyn	Gwennan Jones
16. Deuawd Cynradd	Gwenllian a Bronwen		
17.Unawd Offeryn Cerdd Agored Cynradd	Jac Elis Jones		
18.Darlleniad o Feibl y Plant - Cynradd	Gwennan Jones	Idris Owen	Tomos Wyn
22. Cystadleuaeth Parti/Côr i Fudiadau Lleol	Côr Merched Glannau'r Gwendraeth	Côr OMA	Côr Meibion Porth Tywyn
23.Adrodd Unigol – Agored (Dros 16)	Maria Evans	Sulwen Davies	
25.Darlleniad o'r Beibl - Agored	Maria Evans	Anna Brown	Liz Evans
26.Cân Werin – Agored – Dros 12	Anna Brown	Liz Evans	
28.Cân o Unrhyw Sioe Gerdd – Agored (Dros 12)	Anna Brown		
29. Canu Emyn Agored	Liz Evans	Anna Brown	Sulwen Davies
32. Llên: Cystadleuaeth y Gadair.	Mark Ford, Pontarddulais		
33. Llên: Brawddeg.	Myfanwy Roberts, Llanrwst		
34. Llên: Englyn.	Alan Iwi, Didcot		
35. Llên: Limrig.	Carwyn Tywyn, Porth Tywyn		

Arlunio: Derbyn ac Iau	Fox Ysgol y Castell	Reggie Paton Ysgol Gynradd Trimsaran	Ellie Ysgol Gymraeg Gwenllian
Arlunio: Blwyddyn 1 a 2	Teddy Afzal Ysgol Gymraeg Gwenllian	Rhys John Ysgol Mynydd y Garreg	Lili Kurton Evans Ysgol Gymraeg Gwenllian
Arlunio: Blwyddyn 3 a 4	Heidi Davies Ysgol y Castell	Zieorah Onoh Ysgol Mynydd y Garreg	Alexia Lancey Ysgol Gymraeg Gwenllian
Arlunio: Blwyddyn 5 a 6	Anya Barnett Ysgol Gymraeg Gwenllian	Rowan Ysgol y Castell	Dylan Labacik Ysgol Mynydd y Garreg